

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

Cyflwyniad

Yn yr aseiniad hwn bwriadir gwerthuso'n feirniadol digwyddiad critigol a ymddangoswyd yn ystod cyfnod arsylwi mewn ysgol. Trafodir yn gyntaf cyd-destun yr ysgol gan gynnwys gwybodaeth ddefnyddiol amdani megis data prydau bwyd am ddim a hefyd gwybodaeth am yr amgylchedd dysgu yn y wers benodol a defnyddir. Ceir hefyd trosolwg o'r mathau gwahanol o ddulliau arsylwi posib gan gynnwys cryfderau a gwendidau dull achos critigol. Mewn adran arall cysylltir y digwyddiad beirniadol a arsylwyd gyda phedwar pwrpas Donaldson gan gyfeirio at ei amcanion ef ar gyfer y Cwricwlwm Newydd. Yn ystod yr adolygiad llenyddiaeth canolbwyntir ar dri maes, amlygwyd y tri yma yn ystod y broses o arsylwi'r digwyddiad beirniadol. Cyfeirir at nifer o weithiau a llenyddiaeth i gefnogi'r pwyntiau yma ac i ddangos tystiolaeth lenyddol o'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn a arsylwyd. Ceir atodiadau i'r aseiniad hefyd lle cynhwysir gwybodaeth am y pedwar digwyddiad beirniadol a arsylwyd yn ystod pedwar o wersi gwahanol. Ar ffurf bwa cyflwynir y rhain ac er bod pedwar ohonynt wedi eu cynnwys yn yr atodiadau dim ond un a chanolbwyntir arni trwy'r aseiniad hwn sef atodiad 1. Symudir ymlaen i ystyried y camau nesaf y gellir eu cymryd ynghylch yr achos ac yma gellir adfyfrio a gwerthuso'r hyn a digwyddwyd gan geisio cynnig syniadau ar sut y byddai modd ymateb i ddigwyddiad beirniadol fel y gwelwyd. Clo'r aseiniad gyda chasgliad byr ar ganfyddiadau'r digwyddiad beirniadol a arsylwyd yn ogystal â'r camau posib nesaf.

Arsylwi

Yn ystod y cyfnod arsylwi yn ysgol X cafwyd cyfle i arsylwi amryw o ddosbarthiadau o bob oedran ac o bynciau gwahanol hefyd. Fel y sonnir yng nghanllawiau BERA (2018) ar anhysbysrwydd cyfeirir at yr ysgol o dan sylw fel 'Ysgol X' er mwyn cadw cyfrinachedd. Ysgol yn ardal Sir Gaerfyrddin yw ysgol X ac mae hi'n ysgol benodedig Gymraeg ers Medi 2016 fel y sonnir ym mhrosbectws yr ysgol (2019). Cynhelir hefyd gan yr Awdurdod Lleol gan ei bod hi'n ysgol gymunedol. Disgyblion o 11oed oed hyd at 18 oed ceir yma ac ar hyn o bryd gyda thua 882 o blant a 162 o'r rhain yn y chweched dosbarth (My Local School, 2018). Mae lefelau presenoldeb yr ysgol hefyd yn uchel iawn yn flynyddol ac roedd yn 95.5% yn 2018 (My Local School, 2018). Nid yw disgyblion yr ysgol o ardal sydd yn llewyrchus nac o

dan anfantais economaidd ac fel y sonnir ar y wefan (My Local School, 2018) dim ond 4.1% o ddisgyblion yr ysgol sydd yn gymwys am brydau bwyd am ddim. Mae hyn yn isel o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol 2018 sef 16.6% a'r awdurdod lleol a oedd yn 15.2%. Yn adroddiad Estyn 2015 nodwyd bod gan ddisgyblion yr ysgol amrediad o allu gydag 14.7% ar restr anghenion dysgu ychwanegol ac 1.6% gyda datganiad anghenion (Estyn, 2015). Ymddangoswyd yr achos critigol a fydd yn cael trafod ymhellach yn yr aseiniad mewn gwers Fathemateg blwyddyn 7. Dosbarth o tua 29 o ddisgyblion o allu cymysg cafwyd yma a'r pwnc testun a thrafodwyd yn y wers hon oedd rhannu degolion. Roedd y nifer o fechgyn a merched yn y wers yn gymharol debyg ac nid oedd cynorthwyydd yn bresennol o gwbl. Amlygwyd yn syth fod yr ystod gallu yma yn eang iawn ac o ganlyniad i hyn ymddangoswyd yr achos critigol.

Methodoleg

Wrth ystyried y dull o arsylwi mae yna nifer o wahanol fodelau sydd yn bosib i'w defnyddio ond efallai'r ddau fwyaf cyffredin yw arsylwyr cyfranwyr ac arsylwyr di-gyfranwyr. Fel dywedwyd gan Kumar (2014) mae arsylwyr cyfranwyr yn cyfrannu at y gweithgareddau sydd yn cymryd lle gyda'r disgyblion. Ar y llaw arall mae arsylwyr di-gyfranwyr yn sefyll nôl i wyllo ac i wrando cyn dod i ganlyniadau yn sgil hyn. Galluogir arsylwi cyfranwyr i allu casglu llawer o wybodaeth am ddisgyblion a'u dysgu nhw trwy arsylwi fel yma ond mae nifer o ddadlau wedi cymryd lle ynglŷn â'r problemau sydd yn cyd-fynd â hyn (Kawulich, 2005). Dywed Kumar ei bod hi'n bosib i ddisgyblion ymddwyn mewn ffordd wahanol pan sylweddolant eu bod yn cael eu harsylwi (2014). Gelwir hyn yr 'Hawthorne Effect' lle dywedir y gall agweddau ac ymddygiad ddisgyblion newid wrth iddynt gael eu harsylwi boed mewn modd positif neu negyddol. O ganlyniad i hyn nid yw'r arsylwad bob amser yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y wers ac ymateb y disgyblion (Kumar, 2014). Mae'n bosib hefyd i arsylwyr ddatblygu bias wrth gyflawni'r arsylwadau yn enwedig os ydynt yn digwydd yn rheolaidd (Kawulich, 2005). Penderfynwyd defnyddio'r dull arsylwi cyfranwyr wrth arsylwi'r achos yma er mwyn gallu ystyried yr holl wybodaeth yn ddyfnach tra'n rhan o'r wers ac nid o bellter fel gyda'r dull arall, Gwneir hyn hefyd er mwyn ceisio lleihau'r 'Hawthorne Effect' a welir gan ddisgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r byd addysg wedi gweld cynnydd yn y nifer o astudiaethau ansoddol sydd yn cynnwys arsylwi cyfranwyr er mwyn casglu data a gwybodaeth (Kawulich, 2005). Sonir Kawulich am astudiaeth Bernard, 1994 a dywed bod sawl rheswm i gefnogi bod defnyddio arsylwi cyfranwyr yn cynyddu dilysrwydd yr astudiaeth gan gynnwys y ffaith fod yr Hawthorne Effect i'w weld yn llai mewn achosion arsylwi cyfranwyr gan nad ydynt mor ymwybodol eu bod yn cael eu harsylwi yn unig (2005). Wrth arsylwi fel yma bwriadwyd gweld achos critigol yn ymddangos mewn rhai o'r gwersi. Fel sonia (Tripp, 2012) nid digwyddiad sydd yn ymddangos yn annibynnol i waith arsylwr yw

achos critigol ond yn hytrach beirniadaeth a wnawn wrth arsylwi rhyw ddigwyddiad ydyw. Ar sail y feirniadaeth hon daw arwyddocâd yr achos critigol wrth ymateb yn feirniadol i'r hyn sydd wedi digwydd. Yr arwyddocâd a phwysigrwydd yma sydd yn gwahanu achos critigol oddi wrth achos cyffredin sydd yn digwydd heb unrhyw sail iddo. Wrth ystyried astudiaeth achos sonnir Cohen et al, (2011) ei fod yn broses a galluogir ymchwilyr i weld effeithiau mewn cyd-destun real gan gofio bod y cyd-destun yma'n dibynnu llawer ar ganlyniad yr effeithiau a'r achosion. Dadleuir nifer fod achos critigol ac astudiaeth achos yr un fath ond fel y sonnir uchod gan Cohen et al, gellir astudiaeth achos fod yn fwy cyffredinol gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau yn hytrach na chanolbwyntio ar un fel achos beirniadol (2011). Ymdebygir y ddau o ran eu gwendidau fodd bynnag fel yr ystyrir y gallant fod yn dueddol er eu bod yn rhoi darlun gwir a realistig iawn o'r digwyddiadau (Cohen et al, 2011).

Pedwar Pwrpas

Arsylwyd 4 achos critigol yn ystod y cyfnod arsylwi a dangosir y rhain yn atodiadau 1-4 fodd bynnag canolbwyntir ar un achos yn yr aseiniad hwn sef atodiad 1. Yr achos critigol a ymddangoswyd yma oedd gan ddisgybl mewn gwers Fathemateg fel y soniwyd uchod. Eto gan ddilyn canllawiau BERA fe fydd y disgybl a sonnir amdano yma yn cael ei gyfeirio fel Disgybl Y er mwyn sicrhau anhysbysrwydd a chyfrinachedd y disgybl (BERA, 2018). Canolbwyntir ar yr achos critigol a thrafodir yma yn Atodiad 1 (BWA1). Fel y soniwyd eisoes roedd y dosbarth yn allu cymysg a gosodwyd y disgyblion i eistedd ar ffurf cynllun eistedd yn sgil eu cyfenwau. Sylwyd yn syth ar y disgybl mewn golwg am amryw o resymau megis man siarad ac amharu ar eraill o'i amgylch. Fel y dywed yn Atodiad 1, tynnwyd sylw ato gan yr athro hefyd am ddiffyg trefn yn y wers gan nad oedd wedi cwblhau cyfres o dasgau a gosodwyd yn y gwersi blaenorol, gwaith cartref na hefyd cofio'r offer i gyd ar gyfer y wers. Amlygwyd ymhellach trafferthion y disgybl trwy gydol y wers a phrofwyd trafferthion gyda'r dasg a gosodwyd tra hefyd yn gwrthod unrhyw gymorth ac yn ymddangos yn amddiffynnol iawn pan gynigwyd hyn. Wrth ystyried Pedwar diben Donaldson sonnir y "bydd ein holl blant a phobl ifanc yn unigolion iach a hyderus" (Donaldson, 2015). Yn amlwg yn yr achos critigol ac ystyriwyd yma nad oedd hyn yn bresennol wrth i'r disgybl fethu a datblygu'r hyder i ofyn cwestiwn neu am gymorth i'w gynorthwyo yn ystod y wers. Fodd bynnag gellir dadlau pan oedd Disgybl Y yn amharu ar ddisgyblion eraill efallai ei fod yn ymgeisio i godi'r hyder i wella ei ddealltwriaeth ond gyda chyd-ddisgybl yn hytrach nag yr athro felly o bosib fod rhywbeth ar wraidd y broblem yma. Efallai bod angen ystyried materion lles y disgybl gan gofio am erthygl 12 lle dywedir bod llais y plentyn yn hanfodol wrth geisio symud ymlaen, i wrando ar y llais hwn ond hefyd i ystyried camau i weithredu ar yr hyn maent yn dweud (Unicef UK, 2019). Gellir ystyried hefyd efallai bod problemau cartref neu les gyda'r disgybl yma hefyd ac o ganlyniad y camau nesaf i'w cymryd byddai i ymchwilio mewn i les y disgybl a'i

gyrhaeddiad mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ac agwedd bugeiliol yr addysgu. Yn ogystal â hyn sonnir yn y pedwar pwrpas am ddatblygu plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a hyderus (Donaldson, 2015). Er na welwyd hyn yn uniongyrchol gan Ddisgybl Y yn y wers efallai o ganlyniad i'r diffyg hyder oedd hyn ac felly wrth ddelio â hyn gellir datblygu uchelgais ac awydd ddysgu'r disgybl ymhellach fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Posibiliad arall yw ei fod yn cael trafferth gyda Mathemateg yn unig ac nad yw'n peri gofid mewn unrhyw bwnc arall ac efallai'r trywydd cywir i ddilyn yw efallai setio neu gymorth ychwanegol yn y pwnc hwn. Trywydd arall gellid ei ddilyn byddai buddiannau dysgu cyfoed sydd wedi cael ei brofi mewn sawl gwlad bellach gan gynnwys Singapore. Sonnir Vygotsky yn aml iawn am sgaffaldio dysgu'r dysgwr mewn ymgais i ddatblygu hyder y disgybl gan hefyd ei wneud yn ddysgwr fwy yn annibynnol sydd eto yn taro pedwar diben Donaldson. Fel soniwyd gan y gweinidog addysg un bwriad yw ceisio gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng grwpiau gwahanol a dysgwyr (Kirsty Williams, 2018) ac efallai bod y dull yma o ddysgu cyfoedion yn ffordd i allu gwneud hyn er mwyn taro dibenion Donaldson i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog ond hefyd yn iach a hyderus.

Adolygiad Llenyddiaeth

Pan ystyrir yr achos critigol a dystiwyd yn ystod y wers gellir fod wedi mynd ar drywydd nifer o feysydd gwahanol i wneud ymchwil pellach. Tynnwyd sylw yn benodol at dri maes yn bennaf i'w dilyn yn sgil yr achos hwn sef diffyg hyder Disgybl Y a'r angen i'w annog i fod yn ddysgwr hyderus ac uchelgeisiol gyda dull tebyg i ddysgu cyfoed, materion lles a bugeiliol y disgybl ac yn olaf yr amgylchedd a'r lleoliad dysgu.

Ymddangoswyd yn syth yn yr achos critigol fod hyder Disgybl Y yn isel wrth iddo ymddangos yn amddiffynnol pan geisiwyd rhoi cymorth iddo a gwrthod y cymorth hwn fel y sonnir yn atodiad 1 pan roedd yn amlwg yn wynebu trafferthion gyda'r dasg. Un dull posibl i geisio datblygu hyn yw'r syniad o ddysgu a chefnogi cyfoed. Mae ymchwil helaeth wedi dangos fod disgyblion sydd yn ymgymryd â dysgu cyfoed mewn gwersi yn fwy parod i ymdrin â thasgau anodd, yn gallu dargadw fwy o wybodaeth, yn ymateb yn fwy positif i dasgau a hefyd yn codi hyder a hunan-barch (Hanson et al., 2016). Cysylltir hyn hefyd gyda'r ail faes sef lles y disgybl wrth i'r cefnogi cyfoed hwn gael effaith gadarnhaol ar feddylfryd a hyder y disgybl fel y sonnir uchod. Dangosir hyn hefyd bod y meysydd yn cyd-blethu a'i bod oll yn gallu cyfrannu at gefnogi'r disgybl o ganlyniad i'r achos critigol. Gosodwyd y disgyblion i eistedd yn ôl eu cyfenwau yn y wers a arsylwyd ac nid yn ôl eu gallu a chysylltir hyn gyda'r drydydd maes fel amgylchedd y dosbarth. Dywed Vygotsky (1978) y bod lleoli disgyblion sydd â mwya o wybodaeth yn ddeallusol gerbron rhywun sydd yn cael fwy o drafferth yn gallu cael effaith gadarnhaol tu hwnt ar ddisgyblion o fewn y parth datblygiadol procsimol (Vygotsky, 1978).

Sonnir nad yn unig y disgybl o allu iach bydd yn manteisio o weithio fel yma wrth ymestyn eu gwybodaeth ond hefyd y disgyblion hynny sydd â gallu uwch wrth i'r broses o esbonio cadarnhau eu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhellach (Vygotsky, 1978). Dywedir, yn enwedig yn fathemategol fod gallu esbonio yn llawn i rywun arall sut a pham mae gwneud rhywbeth gwir yn dangos dealltwriaeth lawn o'r testun (STEM, 2016). Cefnogir hyn y pwynt ymhellach bod cefnogi a dysgu cyfoed yn fuddiol iawn i ddysgwyr. Eto yn y wers hon gellir dadlau y byddai hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y disgyblion i gyd gan gynnwys Disgybl Y i godi ei hyder ac i wella ei ddealltwriaeth. Nodwyd yn flaenorol i'r disgybl Y dan sylw wrthod cymorth a gynigwyd gan oedolyn yn y dosbarth ac atgyfnerthir hyn y gred fod disgyblion yn ei gweld hi'n haws i dderbyn cymorth neu i ddangos diffyg neu drafferth i ddisgyblion eraill yn ei mysg yn hytrach nag i oedolion megis yr athro dosbarth (James, A.I., 2016). Cefnogir hyn hefyd y farn y byddai dysgu cyfoed yn bosibiliad y gellir ei hystyried yn gam ymlaen yn yr achos hwn. Dywed fod dysgu a chefnogi cyfoed yn ogystal â dysgu gyda chydweithrediad yn gallu arwain at welliannau sylweddol yn academiaidd ond dim ond os ydyw'n cael ei ddefnyddio mewn ffordd addas (Topping, 2005). Dangosir y pyramidiau gan y National Training Laboratories Bethel, Maine fod cyfartaledd cyfradd dargadwad disgyblion yn 90% wrth ddysgu eraill (NTL, 2019). Y canran uchaf o gyfraddau dargadwad ydyw'r adran hon ac felly cefnogir hyn eto'r ffaith bod dysgu cyfoed yn ddull llwyddiannus iawn i'w ddefnyddio yn y dosbarth gyda disgyblion (NTL, 2019). Dangosir ymchwil McBeath fod cefnogaeth gan gyfoedion yn arwain at ymdeimlad o berthyn ac o ganlyniad yn arwain at lai o rwystrau wrth ystyried tasgau mewn gwersi (McBeath et al., 2018). Mae hyn yn y pendraw yn gwella iechyd meddwl a lles y disgyblion a gellir hefyd yn yr hir dymor arwain at wneud y trawsnewidiad rhwng gwaith ac ysgol i fod yn fwy llyfn (McBeath et al, 2018). Cysylltir hyn yn gryf gydag amcanion Donaldson yn y cwricwlwm newydd i greu unigolion sydd yn "ddinasyddion egwyddorol, gwybodus" (Donaldson, 2015, tud31) a'u paratoi yn ymhellach na chyffiniau'r ysgol. Gellir gweld cyswllt yma hefyd gyda'r ail faes i'w drafod sef lles ac ochr bugeiliol y disgybl.

Ystyrir yr ail faes sef lles y disgybl a'r ochr bugeiliol o'i gynorthwyo wrth feddwl am y rhesymau pam fod ganddo hyder a hunan fry mor isel yn ogystal â pham ei fod yn anghofio offer fel y sonnir yn Atodiad 1. Yn ôl Hattie (2003) mae'r cartref yn cael 5-10% o effaith ar amrywiant cyrhaeddiad disgybl wrth i broblemau adref beri gofid i ddisgyblion gan arwain at leihad yng nghanolbwyntio ac mewn cyflawniad. Pan wynebir ansefydlogrwydd ym mywydau disgyblion mae pob unigolyn yn delio â hyn mewn gwahanol ffyrdd. Dywed bod ansefydlogrwydd yn cael effaith fawr ar ddatblygiad gwybyddol y disgybl, (Huerta, S a Sandstrom, H., 2013). Disgrifir Sandstrom a Huerta (2013) ansefydlogrwydd fel profi digwyddiad sydyn, anwirfoddol neu ddigwyddiad sy'n gallu fod yn negyddol ar sefyllfa'r

unigolyn neu'r teulu. Gellir awgrymu bod unrhyw un o'r uchod o bosib wedi cael effaith ar Ddisgybl Y ac o ganlyniad wedi cael effaith ar ei hunan drefniant a hefyd ei agwedd at ddysgu yn ystod gwersi. Fel y sonnir hefyd yn atodiad 1 efallai bod yn ddisgybl yn peri trafferth ar draws y cwricwlwm a chysylltir hyn gyda'r ochr bugeiliol hefyd. Dywed fod y mwyafrif o'r disgyblion hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn isel o ran hyder ac yn wynebu hunan-barch isel gan eu bod efallai yn gweld pynciau yn anoddach nag eraill (Peer a Reid, 2016).

Y drydydd maes i'w drafod yw amgylchedd y dosbarth a'r lleoliad dysgu. Fel y crybwyllwyd uchod ac yn atodiad 1 roedd y disgyblion wedi eu gosod fesul cyfenwau yn y wers a arsylwyd. Er mwyn i'r dysgu cyfoed a soniwyd amdano uchod weithio fe fyddai angen cynllun eistedd penodol lle y gosodir disgyblion gallu uchel wrth ymyl disgyblion o allu is, er enghraifft gellir lleoli Disgybl Y i eistedd gyda rhywun sydd yn fwy abl yn yr achos hwn (Vygotsky, 1978). Mae ymchwil yn dangos llawer o farnau gwahanol ynglŷn â chynlluniau eistedd boed hynny yn negyddol neu gadarnhaol. Wrth wneud hyn byddai modd i'r maes cyntaf sef dysgu cyfoed cael ei weithredu yma. Effeithir hefyd lleoliad Disgybl Y yn y dosbarth ar hyn. Dywed (Fautley, 2008) fod asesu ffurfiannol yn allweddol yn ystod gwersi er mwyn gallu asesu yn barhaol cyrhaeddiad disgyblion wrth iddynt ymgymryd mewn tasgau. Wrth leoli Disgybl Y mewn safle sydd yn hygyrch i'r athro, heb fod yn amlwg wrth wneud hyn, galluogir yr athro i asesu'n ffurfiannol wrth amgylchynu'r dosbarth. Atgyfnerthir eto gan Black a Wiliam (1997) sut mae asesu ffurfiannol yn arwain at gynnydd mewn dysgu ac yn enwedig i ddisgyblion o'r gallu isaf. Dywed ei fod yn llwyddiannus iawn mewn sefyllfaoedd fel hyn wrth i asesu ffurfiannol ddangos i'r disgyblion ble maent yn mynd yn anghywir a sut i wella hefyd (Black a Wiliam, 1997). Cefnogir hyn sut y byddai hyn felly yn fuddiol iawn yn achos y digwyddiad beirniadol hwn. Ceir cwestiynu rhan bwysig iawn mewn asesu ffurfiannol hefyd fel y sonnir gan Fautley (2008) ac wrth wneud hyn gall yr athro hefyd godi hyder y disgybl gan ofyn cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig tra hefyd yn ystyried gallu'r disgybl wrth wneud hyn. Ceir hyn eto effaith gadarnhaol ar les y disgybl fel y soniwyd uchod wrth i'w hyder godi.

Adfyfrio/Gwerthuso a'r camau nesaf

Wrth ystyried yr achos critigol a thrafodwyd yn yr aseiniad hwn hyd yma, un o'r cydrannau pwysicaf yn y teitl yw'r gwerthusiad a'r camau nesaf. Galluoga adfyfrio a gwerthuso i ni allu fod yn adfyfyriol o ddigwyddiad ond heb feirniadu yn ddiangen. Gan gofio ein bod yn bwriadu dilyn gyrfa mewn addysg mae adfyfrio a gwerthuso yn rhan allweddol o'n datblygiad ni fel athrawon wrth i ni fyfrio'n barhaus er mwyn codi safonau a gwella'r addysgu. Sonir yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Athrawon (2019) sut mae disgwyl i athrawon ddangos ôl

adfyfrio yn barhaus yn ogystal ag ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth. Dywed hefyd bod disgwyl iddynt fod yn agored i ddatblygu addysgeg yn barhaol er mwyn gwella'r addysgu. (Llywodraeth Cymru, 2019). Wrth gofio pedwar pwrpas Donaldson, i greu unigolion annibynnol a hyderus mae'n rôl ni yn dyngedfennol er mwyn llwyddo i wneud hyn. Dywed bod ceisio bod yn adfyfyriol yn hanfodol er mwyn galluogi'r athro i fod yn esgidiau'r plant er mwyn iddynt ddeall anghenion y disgyblion hynny yn well (Brookfield, 2017). Wrth i ni ystyried amcanion Donaldson i greu unigolion annibynnol a hyderus mae'n bwysig cofio wrth i ni adfyfrio a bod yn ddatblygol mae hyn yn trosglwyddo draw i'r disgyblion ac o ganlyniad yn eu hannog nhw i ymddwyn yr un fath. Yn achos y digwyddiad beirniadol hwn a thrafodwyd drwy'r aseiniad credaf fod yna nifer o gamau posib i'w dilyn er mwyn ceisio osgoi ymddangosiad achos fel hwn. Un cam rydwyf yn sicr yn teimlo y byddai'n effeithiol wrth adfyfrio a symud ymlaen byddai'r syniad o ddysgu cyfoedion. Teimlaf y byddai lleoli Disgybl Y i eistedd wrth rywun o allu uwch yn fuddiol iawn iddo a hefyd i'w gyfoed. Wrth wneud hyn byddai modd i'r disgybl dan sylw godi ei hyder yn sylweddol wrth ymdrin â thasgau gwaith pâr gan fod y disgybl arall eisoes yn fwy hyderus ac yn gallu annog Disgybl Y i fod yn fwy sicr o'i atebion. Credaf y byddai'r sgaffaldio yma o fudd mawr i Ddisgybl Y, heb fod yn amlwg wrth wahaniaethu ar bapur na gan yr athro ond yn hytrach cyfoedion yn gwneud hyn er mwyn eto osgoi i'r disgybl deimlo hunan fry isel. Helpa hyn hefyd y disgybl o allu uwch wrth iddo allu profi ei dealltwriaeth ei hun ymhellach wrth esbonio rhesymeg y testunau i Ddisgybl Y a chyfoedion eraill. Crybwyllir hefyd mewn ymchwiliad ynghynt y ffaith y gwelir rhai disgyblion hi'n anodd gofyn am gymorth wrth athro neu oedolion yn gyffredinol (James, A.I. 2016) ac felly eto wrth ddilyn y syniad yma o ddysgu cyfoedion efallai byddai'r disgybl yn fwy parod i rannu ei bryderon ac anawsterau. Fel y soniwyd yn flaenorol mae llawer o dystiolaeth yn cefnogi hyn gan hefyd bwysleisio fod cefnogaeth gan gyfoedion yn gallu cael effaith cadarnhaol ar les y disgybl yn ogystal. Wrth i'w hyder godi yn y dosbarth gyda'i waith bydd hyn yn trosglwyddo i'w ddatblygiad y tu allan i'r dosbarth hefyd. Galluoga hyn y disgybl i adeiladu perthnasau mwy cadarn yn ystod y gwersi a chredaf y byddai hyn yn o ganlyniad yn arwain at berthnasoddd gwell.

Wrth ystyried anawsterau Disgybl Y yn benodol i Fathemateg credaf y byddai setio'r dosbarthiadau yn fanteisiol i Ddisgybl Y. Wrth iddo'i gweld hi'n anodd ymdopi gyda'r gwaith ac efallai'r cyflymdra, yn ddelfrydol efallai byddai bod o fewn dosbarth llai o faint sydd yn symud ar gyflymdra mwy addas yn well iddo. Fodd bynnag nid yw hyn yn bosib ar draws pob pwnc ac felly wrth adfyfrio'r camau nesaf credaf mai ei gynorthwyo yn y dosbarthiadau presennol yw'r opsiwn gorau trwy ddulliau fel dysgu cyfoed ac efallai sgaffaldio mewn pynciau addas. Mae ei leoliad yn y dosbarth hefyd yn gallu effeithio ar hyn. Gan nad oedd cynorthwydd yn bresennol yn y wers yr athro yn unig oedd â'r cyfrifoldeb o gynorthwyo'r

disgybl wrth beri trafferth. Er mwyn gwneud hyn yn haws byddai lleoli'r disgybl ym mlaen y dosbarth neu wrth ymyl un o'r rhesi yn ddefnyddiol er mwyn hygyrchedd yr athro i'w gyrraedd os oes angen yn ogystal â galluogi'r athro i allu asesu wrth amgylchynu sut mae'n ymdopi gyda'r dasg heb orfod gofyn i ddisgybl Y.

Casgliadau

Felly ar gyfer yr aseiniad hwn defnyddiwyd dull arsylwi cyfrannwr er mwyn ceisio tystio achos critigol mewn gwrs er mwyn ei werthuso'n feirniadol gan hefyd trafod y camau nesaf wrth adfyfrio. Penderfynwyd ar y dull hwn gan ei fod yn galluogi ni i weld yn uniongyrchol yr hyn a ddigwyddodd gan hefyd ceisio osgoi tuedd gan mai un arsylwad ydyw nid cyfres ohonynt. Fel y soniwyd yn flaenorol yn y safonau proffesiynol disgwylir i athrawon fod yn barod i adfyfrio a bod yn agored i newid a datblygiad drwy'r amser ac mae'r dull hwn o gasglu tystiolaeth i'w adfyfrio wedi fy ngalluogi i wneud hyn (Llywodraeth Cymru, 2019). Wrth drafod yr achos critigol a dystiwyd, amlygwyd fod gan Ddisgybl Y hyder isel iawn yn ystod y wers yn sgil ei drafferth yn y pwnc ac yn arwain at ei hunan drefniant gwael. Soniwyd am ambell faes a wnaethpwyd ymchwil iddynt gan gynnwys sut i godi ei hyder i geisio cydfynd gyda phedwar pwrpas Donaldson I greu unigolion hyderus ac annibynnol (Donaldson, 2015). Trafodwyd sut y byddai'r dull o ddysgu cyfoed yn fuddiol iawn yma i godi ei hyder gan hefyd gysylltu gyda'r ail faes sef lles y disgybl sydd yn cael ei effeithio gan y diffyg hyder yma a'r gwendid yn y pwnc. Cysylltwyd hyn hefyd gyda'r drydydd faes sef yr amgylchedd dosbarth a sut y gellir lleoliad y disgybl gyfrannu at yr achos a sut i'w oresgyn gan ei wneud yn haws i'r athro asesu os yw'r disgybl mewn lleoliad hygyrch. Wrth adfyfrio ac ystyried y camau nesaf teimlaf gall y syniad o ddysgu cyfoed chwarae rhan allweddol wrth geisio meddwl sut i ymateb i'r achos critigol hwn gan gynnig y cyfle mwyaf posib i'r disgybl i godi ei hyder a gallu datblygu o fewn y gwrsi. Galluoga hyn hefyd iddo allu datblygu ymhellach gan gyd-fynd ag amcanion Donaldson ar gyfer creu unigolion llwyddiannus I Gymru.

Rhestr Cyfeirnod

Black, P a Wiliam, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising the standards through classroom assessment*. London: GL Assessment.

British Educational Research Association (BERA), (2018) Ethical guidelines for educational research. 4th edition. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Darllenwyd: 9 Hydref 2019)

Brookfield, S. (2017) *Becoming a critically reflective teacher*. 2il argraffiad. San Francisco, California: Jossey-Bass.

Cohen, L et al. (2011) *Research Methods in Education* 7th Edition. London; New York: Routledge 2011

Donaldson, G (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Darllenwyd: 7 Hydref 2019)

Estyn (2015) Inspection Report, Ar gael yn:

Llywodraeth Cymru (2019) Professional standards for teaching and leadership. Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/fc/a7/a4/e2/e348428381e68434ea93f611/professional-standards-for-teaching-and-leadership-interactive-pdf-for-pc.pdf> (Darllenwyd: 23 Hydref 2019)

Llywodraeth Cymru (2018) My Local School. Ar gael yn: <http://mylocalschool.gov.wales/School/6694056?lang=en> (Darllenwyd: 10 Hydref 2019)

McBeath, M., Drysdale, M. a Bohn, N. (2018), *Work-integrated learning and the importance of peer support and sense of belonging*, Emerald Publishing Education + Training, 60(1), tud 39-53. <https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1973005212/fulltextPDF/B686FB531D14492PQ/1?accountid=130472> (Darllenwyd: 15 Hydref 2019)

National Training Laboratories (2019) Ar gael yn: <https://www.ntl.org/> (Darllenwyd: 23 Hydref 2019)

Peer, L. a Reid, G. (2016) *Special Educational Needs: A guide for inclusive practice*. London: Sage publications 2016.

STEM Learning, (2016) How can we develop pupils' explanations in mathematics? Ar gael yn: <https://www.stem.org.uk/news-and-views/opinions/how-can-we-develop-pupils-explanations-mathematics> (Darllenwyd: 11 Hydref 2019)

Topping, K. (2005), Trends in peer learning. *Educational Psychology*, 25(6), tud 631-645.

Tripp, D. (2012) *Critical incidents in teaching: developing professional judgement*. London: Routledge 2012.

Unicef UK. (2019) UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC) – Unicef UK. Ar gael yn: <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019)

Vygotsky, L. (1978) *Mind in Society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Williams, K. (2018) *Education in Wales: Our National Mission*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf> (Darllenwyd: 12 Hydref 2019)

Ysgol [REDACTED], (2019) Prospectws 2019-20. Ar gael yn [https://www.\[REDACTED\].org/prospectws-a-llawlyfrau-ysgol](https://www.[REDACTED].org/prospectws-a-llawlyfrau-ysgol) (Darllenwyd: 10 Hydref 2019)

Atodiadau**NODIADAU ARSYLWI / MAES 1**

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:
Manylion y wers: Dosbarth gallu cymysg o tua 29 o ddisgyblion yn bresennol. Gwers Mathemateg Blwyddyn 7 yn dysgu rhannu degolion yn dilyn gwersi blaenorol ar luosi degolion. Dim cynorthwydd yn bresennol dim ond yr athro yn cymryd y wers. Fformat y wers oedd strategaeth i ddechrau, cyflwyniad i'r topic newydd gyda chyfres enghreifftiau, taflen waith ac yna tasg gyflym i orffen.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Myfyrwyr yn canolbwyntio trwy gydol y wers. Amrywiaeth o dasgau bach i gadw diddordeb a chwestiynu parhaol er mwyn cael nhw i gyfrannu i'r wers.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Pwrpas clir i'r wers sef i addysgu'r disgyblion sut i rannu degolion. Dechrau gydag enghreifftiau hawdd cyn adeiladu i rai anoddach er mwyn gwthio nhw i gyrraedd eu potensial.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Athro yn cyfarwyddo'r disgyblion mewn modd clir a chryno. Ailadrodd l sicrhau bod pawb yn deall gan eu bod ym mlwyddyn 7 angen cadarnhau eu bod yn deall.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Lefel y gwaith yn hygyrch i bawb. Dechrau ar lefel cymharol isel fel bod pawb yn dod yn gyfarwydd â'r topic Newydd. Cwestiynau yn cynyddu mewn anhawster er mwyn cynnig her i'r disgyblion mwy abl a thalentog.
Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Wedi marcio llyfrau cyn y wers - cael eu dychwelyd ar ddechrau'r wers, cyfnod i gywiro unrhyw gwestiynau a oedd yn anghywir.

Holi cwestiynau trwy gydol y wers er mwyn gwirio fod pawb yn deall ac ar dasg, polisi dim dwylo i fyny ac felly'r athro yn holi cwestiynau amrywiol o ran safon yn benodol i wahanol ddisgyblion.

Amgylchynu'r dosbarth tra bod nhw'n cwblhau'r daflen i wneud yn siŵr fod pawb yn deall.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Disgybl yn cael trafferth amlwg gyda'i waith, gwrthod derbyn cymorth o'r athro ac yn tynnu sylw o achos hyn

Un disgybl o allu uchel yn cwblhau Gwaith yn gyflym iawn ac yn disgwyl sylw yn syth.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 1

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl yn tarddu ar y wers mewn amryw o wahanol ffyrdd.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Profiad da wrth weld dosbarth brwdfrydig yn dysgu ac yn cydweithio i weithio yn ystod y wers. Pawb yn ymateb yn dda i'r athro a'r athro yn cael ymrwymiad wrth bawb.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Arsylwyd gwers Fathemateg Blwyddyn 7 lle addysgwyd rhannu degolion. Dosbarth o allu cymysg oedd yma gyda thua 29 o ddisgyblion yn bresennol. Cyn hyd yn oed dechrau ar waith newydd y wers dosbarthwyd llyfrau'r disgyblion yn ôl iddynt er mwyn parhau. Sylwyd ar un disgybl a oedd wedi tynnu sylw o'r eiliad gyntaf yn mân siarad. Nid oedd wedi cwblhau sawl darn o waith yn ei lyfr ac felly tynnwyd sylw at hyn, yn dilyn hyn wrth fynd ati i wneud y nodiadau tynnwyd sylw eto gan nad oedd y disgybl hwn wedi dod a'i becyn nodiadau. Wrth wneud y dasg hefyd sylwyd bod y disgybl yn cael trafferth gyda hwn ac o ganlyniad yn ceisio torri ar draws a thynnu sylw disgyblion eraill.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Amlygwyd yn ystod y wers yma bod y disgybl yn cael trafferth. Efallai bod diffyg hyder yn broblem gyda'r disgybl a'i fod yn gweld hi'n anodd gofyn am gymorth oherwydd embaras neu gywilydd os nad yw'n deall. Os oes problemau adref efallai bod y disgybl yn gweld hi'n anodd ymdopi yn yr ysgol ac o ganlyniad yn anghofio dod ag adnoddau megis ei becyn nodiadau ac yn cael trafferth gyda gwaith cartref hefyd fel nodwyd eisoes.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Yn amlwg wrth ystyried camau er mwyn osgoi'r aflonyddwch byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw'r disgybl yn peri'r un problemau yma ymhob pwnc neu a yw'n benodol i Fathemateg. Yn amlwg os mai Mathemateg yn unig efallai fod problem fwy dwys o ran ei allu a hyder yn y pwnc hwn. Os bod hyn yn broblem mewn sawl pwnc yna efallai bod angen ystyried opsiynau ehangach ynghylch â hyn. Er mwyn ymateb i drafferthion gyda mathemateg byddai'r dosbarth yn cael eu setio ar ôl hanner tymor ac felly byddai modd gosod y disgybl mewn dosbarth llai o faint lle mae mwy o gymorth ar gael. Dull arall yn y cyfamser byddai efallai symud y disgybl i flaen y dosbarth lle byddai modd i'r athro gadw llygaid pellach ar y disgybl yn ystod yr holl dasgau. Byddai lleoli'r disgybl hefyd ar bwys disgybl arall sydd efallai yn gryfach yn gallu bod o fantais fawr iddo. Mae ymchwil estynedig wedi cael eu gwneud yn Singapore lle maen nhw wedi canfod bod disgyblion yn dysgu yn well oddi wrth ei gilydd nag unrhyw un oedolyn. Gwaith Vygotsky hefyd yn cefnogi hyn bod disgyblion yn dysgu'n well wrth ei gilydd.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:

Manylion y wers: Gwers Saesneg Blwyddyn 5 yn trafod y bennod o'r nofel 'Carrie's War' a ddarllenwyd yn y wers flaenorol. Gwaith pâr er mwyn casglu ffeithiau maent wedi dysgu mewn i adrannau gwahanol ar gyfer creu llythyr. Defnyddio ipads er mwyn rhannu atebion gwaith pâr gyda'r dosbarth cyfan.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Mwyafrif o'r disgyblion yn canolbwyntio trwy gydol y wers ac yn aros ar dasg fel cyfarwyddid yr athro.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Pwrpas y wers yw casglu syniadau er mwyn ysgrifennu llythyr yn seiliedig ar y bennod. Pob tasg yn arwain at hyn trwy'r casglu gwybodaeth fesul cam.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Cyfarwyddiadau clir a phob disgybl yn deall beth i wneud. Athro yn ailadrodd tra'u bod ar dasg i'w hatgoffa o'r ffocws. Meini prawf wedi ei gyflwyno ar ddechrau'r wers felly pawb yn glir sut i ateb y gofynion.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Tasg agored i greu'r llythyr felly'r disgyblion yn gallu cwblhau hyn yn seiliedig ar eu gallu. Athro yn gallu rhoi mwy o sgaffald i rai er mwyn ateb gofynion pawb.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Asesu wrth amgylchynu'r dosbarth. Defnyddio socrative lle'r oedd disgyblion yn danfon atebion o'r ipads i'r bwrdd gwyn rhyngweithiol felly'r athro'n gallu asesu wrth wneud hyn. Cyfle yma hefyd i gywiro sillafu a gramadeg yma gan hefyd penderfynu pa drywydd i fynd lawr yn yr wythnosau nesaf o ran iaith. Holi cwestiynau drwy'r amser hefyd fel ffordd arall o asesu.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Disgybl ddim yn cyfrannu i'r gwaith pâr o gwbl ac yn gadael y disgybl arall i wneud pob dim.

Disgybl yn tynnu sylw trwy gydol y wers trwy chwarae gyda nadwr, siglo ar y gadair, ac yn siarad dros yr athro.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 2

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl ddim yn canolbwyntio yn ystod tasgau trwy siglo ar gadair, chwarae gyda nadwr ac yn y blaen.

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Teimlad da wrth weld yr holl ddosbarth yn awyddus i fwrw ymlaen gyda thasgau er mwyn gallu ysgrifennu llythyron unigol. Profiad newydd hefyd wrth weld y meddalwedd Socrative yn gweithio gyda'r dosbarth cyfan wrth ymgymryd â thasgau.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Yn ystod y wers Saesneg yma cyfarwyddwyd y disgyblion i weithio mewn parau er mwyn cofnodi ffeithiau a darganfuwyd yn y wers flaenorol wrth ddarllen pennod gyntaf y nofel. Roedd hyn mewn paratoad i ysgrifennu llythyr yn y wers nesaf yn sgil y bennod gyntaf. Disgyblion Blwyddyn 5 cafwyd yma ac felly roedd gallu cymysg yn bresennol. Yn ystod y tasgau arsylwyd un disgybl nad oedd yn cyfrannu fel y gweddill. Nid oedd yn cyfrannu at y Gwaith pâr ac yn hytrach yn gadael i'r disgybl arall gwneud yr holl waith. Roedd hefyd wrth wneud hyn yn denu sylw drwy siglo ar ei gadair a chwarae gyda'r nadwr yn barhaus.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Yn amlwg nad oedd y disgybl yma yn awyddus i fwrw ymlaen â'r tasgau fel y disgyblion eraill. Efallai gwelir y Gwaith yn anodd ganddo ond nad yw eisiau gofyn o flaen y disgyblion eraill. Gwelir rhai disgyblion Gwaith pâr yn anodd hefyd gan nad ydynt yn gweld hi'n hawdd rhannu syniadau ag eraill. Efallai bod hyn yn peri trafferth yma gan fod diffyg hyfer gan rai disgyblion i weithio fel pâr oherwydd yr ofn o fod yn anghywir. Gellir fod y Gwaith hefyd yn anniddorol i'r disgybl penodol yma ac felly nid oedd awydd ganddo i ymgymryd â'r tasgau. Gan fod yr ysgol yn gyfrwng Cymraeg efallai hefyd bod y disgybl yn gweld y pwnc Saesneg yn anodd.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Amlygwyd fod diffyg canolbwytio ac ymrwymiad gan y disgybl hwn i ymwneud â'r tasgau yn y wers hon efallai o ganlyniad i ddiffyg hyder neu efallai diffyg diddordeb. Er mwyn gweithredu ar hyn efallai byddai angen cynnig mwy o anogaeth iddo er mwyn codi ei hyder. Byddai modd hefyd ei sgaffaldio os ydyw yn cael trafferth gyda'r Gwaith yn Saesneg. Er mwyn osgoi bod un disgybl yn gwneud yr holl waith efallai byddai mod rhannu'r Gwaith mewn i adrannau fel bod rhywbeth penodol gan bob aelod o'r pâr i wneud. Byddai hyn yn sicrhau bod pob un yn cyfrannu i'w wneud yn deg ac yn fuddiol i'r ddau ohonynt.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

NODIADAU ARSYLWI / MAES 3

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:
Manylion y wers: Gwers Blwyddyn 9 set dop cafwyd yma mewn gwers Mathemateg. Addysgwyd y berthynas rhwng degolion, ffracsiynau a chanrannau yn y wers hon a symudwyd ar gyflymdra slic iawn gan eu bod yn set dop. Cafwyd tasg gyflym i ddechrau cyn symud ymlaen i wneud enghreifftiau ar y bwrdd fel dosbarth o'r topic newydd. Cwblhawyd gwaith yn unigol yn eu llyfrau, daeth y cwestiynau o lyfr ymarferion yn hytrach na thaflen waith. Gorffennwyd y wers gyda thasg fer mewn grwpiau o bedwar i wirio a oeddent wedi deall y gwaith.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Myfyrwyr i gyd yn canolbwyntio ac yn awyddus i fwrw ymlaen gyda'r Gwaith. Digon o amrywiaeth yn yr holl dasgau er mwyn cael cyfraniad wrth ddisgyblion gyda Gwaith grŵp yn ogystal â Gwaith unigol.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Y wers gyda sail iddi gyda'r holl dasgau â ffocws ar destun y wers. Pob gweithgaredd yno er mwyn atgyfnerthu'r wybodaeth Newydd sydd wedi cael ei gyflwyno ar ddechrau'r wers.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Athro yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r disgyblion ar ddechrau pob tasg ac yn eu harwain nhw drwy'r enghreifftiau ar y bwrdd i sicrhau bod pawb yn deall.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Gan fod y dosbarth wedi setio roedd y disgyblion ar lefel tebyg iawn o ran y Gwaith. Er hyn gan eu bod yn ateb cwestiynau o lyfr roedd ganddynt y rhyddid i fynd yn gyflymach ac ateb fwy o gwestiynau na osodwyd os oeddent eisiau.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Cael y disgyblion i ateb wrth wneud yr enghreifftiau ar y bwrdd i sicrhau eu bod nhw'n dilyn ac yn deall. Marcio atebion y cwestiynau fesul pedwar ac felly yn gallu tynnu sylw at unrhyw broblem sydd yn codi wrth fynd ymlaen. Amgylchynu'r dosbarth tra'u bod nhw ar dasg i sicrhau bod pawb yn iawn ac i gynnig cymorth os oes angen.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Disgybl yn tynnu sylw wrth wneud y Gwaith unigol drwy godi llaw drwy'r amser i ofyn cwestiynau dibwys ac yn tarddu ar waith eraill o ganlyniad.

Bachgen wedi torri braich ac felly yn methu cwblhau'r tasgau ysgrifenedig.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 3

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl galluog yn holi cwestiynau dibwys yn ystod y dasg er mwyn tarddu ar eraill

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Braf oedd gweld dosbarth o ddisgyblion gallu uchel iawn ym mathemateg yn awyddus i ddysgu yn ystod y wers er mwyn ehangu eu gwybodaeth. Profiad da hefyd i weld yr amrywiaeth o dasgau a chafwyd yn y wers i gyd gyda'r un ffocws ar y topic Newydd.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	Testun y wers yma oedd y berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau a chyflwynwyd amryw o dasgau er mwyn addysgu hyn. Trafodwyd sawl enghraifft ar y bwrdd er mwyn arwain y disgyblion i weld y berthynas yn weledol. Gosodwyd y dasg o gwblhau cwestiynau yn unigol ac yn ystod hyn ymddangoswyd y digwyddiad critigol. I orffen y wers cafwyd tasg grŵp hwyl er mwyn sicrhau fod pawb wedi deal y testun Newydd. Roedd y disgybl yn holi cwestiynau, dibwys gan amlaf, yn barhaol yn ystod y dasg a oedd yn tarddu ar waith y disgyblion eraill hefyd. Roedd hefyd yn aflonydd iawn gan ei fod yn gwneud hyn a oedd eto yn tarddu ar bawb o'u hamgylch.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	Yn amlwg wrth wneud hyn roedd y disgybl yn chwilio am sylw wrth athro. O bosib mae hyder y disgybl yn isel ac felly roedd am sylw'r athro er mwyn cael sicrwydd ei fod yn gywir gyda'r Gwaith. Posibilrwydd arall yw ei fod yn ffeindio'r Gwaith yn hawdd iawn ac nad yw'n cael ei herio digon. Felly, efallai ei fod yn mynd yn aflonydd gan ei fod wedi cwblhau'r Gwaith sy'n cael ei osod ac felly yn holi cwestiynau er mwyn dangos hyn neu oherwydd bod dim byd arall ganddo i wneud.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Os yw'r disgybl yn tarddu fel hyn gan ei fod am sicrwydd o'r athro efallai byddai'n ddefnyddiol i'r athro cael gair gydag ef er mwyn esbonio ei fod yn tarddu drwy wneud hyn. Byddai hyn hefyd yn dangos i'r disgybl bod yr athro yn ymwybodol o'i allu yn y pwnc. Gellir hefyd efallai codi ei hyder trwy ei ganmol pan mae'n cwblhau'r Gwaith yn gyflym. Efallai byddai cynnig tasg ychwanegol sydd â mwy o amrywiaeth na chwestiynau'r un fath yn annog y disgybl i barhau gyda'i waith yn hytrach na tharddu ar eraill. Gellir hefyd efallai defnyddio'r disgybl i gynorthwyo ei gyd-ddisgyblion sydd efallai ddim yn gweld y Gwaith mor hawdd ag ef. Byddai hyn hefyd yn atgyfnerthu ei wybodaeth ef gan fod gallu esbonio i eraill yn dangos dealltwriaeth uchel iawn.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

NODIADAU ARSYLWI / MAES 4

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:

Manylion y wers: Gwers Saesneg i ddosbarth Blwyddyn 8 oedd hon. Athrawes gyflenwi oedd yn bresennol gan fod yr athro dosbarth yn absennol. Gadawyd tasgau gan yr athro i'r disgyblion fwrw ymlaen gyda drwy'r wers. Roedd gallu cymysg yma a thua 27 o ddisgyblion yn bresennol. Nid oedd cynorthwyydd yn bresennol yma.

Diwylliant ar lawr dosbarth

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth yn canolbwyntio ar y tasgau a gosodwyd gan weithio yn frwdfrydig i'w cwblhau. Gallu gweithio mewn parau ac felly y rhan fwyaf yn cymryd y cyfle i rannu syniadau gydag eraill.

Amcanion

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?)

Pwrpas y wers oedd atgoffa ei hunain o'r Gwaith a ddysgwyd yn y wers flaenorol gan gwblhau tasgau amrywiol ar y Gwaith yma. Gosodwyd hyn gan yr athro er mwyn sicrhau bod pawb yn deall hyd yma cyn symud ymlaen i'r rhan nesaf yn y wers nesaf.

Cyfarwyddyd

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Athro yn cyflwyno'r dasg gyntaf yn glir i bawb ar ddechrau'r wers. Cyflwyno'r ail dasg unwaith mae cwpwl yn gorffen yr un gyntaf. Cyfarwyddo pawb i stopio fel bod pawb yn deall yr ail dasg ac nad oes angen ail-ddweud eto. Cyfarwyddiadau ychwanegol hefyd ar y daflen waith i sicrhau bod pawb yn deall beth i wneud.

Mynediad a her

(Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)

Pob myfyriwr yn dilyn y tasgau gan ei bod yn ail ymweld â gwaith y wers flaenorol. Disgyblion o allu mwy isel yn gallu defnyddio'r gwaith blaenorol i'w cynorthwyo gyda'r tasgau os oes angen. Tasg ychwanegol ysgrifenedig hefyd i'r disgyblion hynny sydd wedi cwblhau popeth.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Yr athrawes gyflenwi yn amgylchynu'r dosbarth yn ystod y tasgau i wneud yn siŵr bod pawb bar dasg. Casglwyd y Gwaith i mewn hefyd ar ddiwedd y wers fel bod yr athro dosbarth yn gallu ei farcio cyn y wers nesaf er mwyn sicrhau bod pawb yn barod i symud ymlaen i'r rhan nesaf.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Disgybl aflonydd yn amharu ar y wers

Grwpiau o fechgyn yn trafod materion amherthnasol i'r wers wrth gael gweithio mewn parau.

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 4

Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date:

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Disgybl aflonydd yn amharu ar y wers

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings <i>Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad?</i> <i>"What are your feelings regarding the experience?"</i>	Teimlad da wrth weld y disgyblion yn ymateb yn bositif i'r athro cyflenwi ac yn awyddus i gwblhau'r Gwaith i'w gasglu i'r athro dosbarth.
Cofio a Deall/ Remember and Understand <i>Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda?</i> <i>"Can you list the aspects of the learning experience that went well?"</i> <i>Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig?</i> <i>"What were the elements of the learning experience that were disappointing?"</i>	Gwers Saesneg blwyddyn 8 arsylwyd yma le'r oedd yr athro dosbarth yn absennol. Gosodwyd Gwaith gan yr athro cyflenwi a oedd wedi cael ei adael gan yr athro dosbarth. Gwaith yn seiliedig ar yr hyn a addysgwyd yn y wers flaenorol felly pawb yn gallu gweithio arno. Roedd un disgybl yn aflonydd trwy gydol y wers ac yn ceisio mynnu sylw wrth bawb. Roedd yn gollwng pethau ar y llawr, codi o'i gadair, siglo ar goesau'r gadair ac yn ceisio tarddu ar waith y disgyblion eraill trwy holi cwestiynau iddynt am y Gwaith. Nodwyd fod y disgybl yn eistedd ar ben ei hun ac felly nid oedd pâr ganddo i drafod y Gwaith.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse <i>Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol?</i> <i>"What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?"</i> <i>Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf?</i> <i>"What was the cause of the most important disappointing element?"</i>	Yn amlwg roedd y disgybl yn ansicr ar beth i wneud ar gyfer y tasgau gan ei fod yn ceisio tarddu ar ddisgyblion eraill i gael gwybod yn hytrach na gofyn i'r athro. Efallai bod diffyg hyder ganddo i wneud hyn neu yn ofn gofyn gan nad oedd yn talu sylw pan esboniwyd iddo. Tynnwyd sylw hefyd i'r ffaith ei fod yn gofyn am offer oddi wrth ddisgyblion eraill hefyd megis pren mesur a phensiliau lliw. Efallai bod diffyg rhain ganddo ac felly nad oedd yn gallu cwblhau'r dasg heb darddu ar eraill.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materion siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	Nodwyd uchod nad oedd neb yn eistedd ar bwys yr unigolyn yma yn ystod y wers. Wrth ystyried y camau gweithredu yn sgil yr achos hwn gellir lleoli rhywun i eistedd ar bwys y disgybl fel bod cymorth ganddo wrth ddisgybl arall yn ystod y tasgau heb orfod tarddu ar y dosbarth cyfan. Wrth wneud hyn byddai'n atal y disgybl hwn rhag gorfod siglo ar ei gadair er mwyn gwirio atebion ac i ofyn am offer wrth eraill. Efallai os oes diffyg offer ganddo byddai modd hefyd i'r athro gynnig unrhyw offer sydd angen i fenthyl ar ddechrau'r wers fel nad yw'n amharu pan fo'r disgyblion yng nghanol gwneud tasgau. Gallai'r athro hefyd cael gair gydag ef yn ystod y tasgau i'w annog i fwrw ymlaen gyda'r dasg a chynnig cymorth os oes angen arno er mwyn osgoi denu sylw eraill. Wrth wneud hyn byddai modd i'r athro sgaffaldio a rhoi pwyntiau iddo os yw'n gweld y Gwaith yn

	anodd. Byddai hyn hefyd yn osgoi unrhyw wrthdaro rhwng yr athro a'r disgybl wrth fod yn bositif yn ei annog yn hytrach na'i gosbi am darddu ar y wers.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	